Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Ward 1, Ysbyty Cwm Cynon

## Dyddiad y gweithgarwch: 12 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mehefin 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-573-7

© Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward 1 Ysbyty Cwm Cynon fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Drwy gydol y pandemig, roedd Ward 1 wedi'i dynodi'n ward COVID-19 ar gyfer safle Ysbyty Cwm Cynon. Fodd bynnag, ar adeg y gwiriad ansawdd, roedd y ward wedi ailddechrau darparu gofal i oedolion hŷn.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad ag Uwch-nyrs y Safle a Rheolwr y Ward ar 19 Mai 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod angen trefnu ymweliad ymlaen llaw, a dywedodd y staff fod hyn wedi helpu i gadw pellter cymdeithasol. Wrth drefnu ymweliad gofynnwyd nifer o gwestiynau yn gysylltiedig â COVID-19 i'r ymwelwyr i sicrhau nad oedd ganddynt unrhyw symptomau. Dywedodd y staff wrthym fod defnyddio galwadau fideo drwy ffonau a llechi hefyd wedi helpu'r cleifion i gadw mewn cysylltiad drwy gydol y pandemig.

Cawsom wybod bod sesiwn galw heibio ar ffurf meddygfa wythnosol wedi cael ei threialu'n llwyddiannus. Roedd hyn yn rhoi amser rheolaidd dynodedig i'r cleifion a'r perthnasau siarad â meddyg a rheolwr y ward am eu gofal a'u triniaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gobeithio y byddai'r sesiwn hon yn parhau.

Gwelsom fod urddas y cleifion yn cael ei gynnal mewn nifer o ffyrdd. Cadarnhaodd y staff fod sgriniau a llenni ar gael ar y ward. Roedd system amseroedd bwyd wedi'u neilltuo ar waith, sy'n ceisio sicrhau nad oes unrhyw ymwelwyr yn ystod amseroedd bwyd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod croeso i'r perthnasau gefnogi'r cleifion hynny a fyddai'n cael budd o help ychwanegol.

Roedd menter gadarnhaol yn cael ei threialu ar y ward, sef y rhaglen hybu annibyniaeth. Mae hyn yn golygu bod staff y ward a therapyddion galwedigaethol yn nodi anghenion cleifion unigol mewn meysydd megis defnyddio'r toiled, eistedd, ymolchi a gwisgo. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw ganmol y mewnbwn a roddir gan y therapyddion galwedigaethol wrth gefnogi'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym hefyd fod fframwaith goruchwylio lefel uwch ar waith a gwelsom enghreifftiau o hyn. Mae'r adnodd hwn wedi'i ddylunio i roi gwybod i'r staff nyrsio am gleifion y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn seiliedig ar eu hymgyflwyniad, megis eu bod wedi cynhyrfu mwy neu eu bod mewn perygl o gwympo. Ychwanegodd y staff fod yr adnodd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â rowndiau bwriadol[1] er mwyn helpu i ddiwallu anghenion gofal sylfaenol y cleifion.

[1] Cyfres o wiriadau a gynhelir gan nyrsys ar adegau penodol yw rowndiau bwriadol, a hynny er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac urddasol yn cael ei ddarparu

I gleifion sy'n ei chael hi'n anodd cofio pethau, dywedodd y staff wrthym fod taflenni 'Dyma Fi'[2] yn cael eu defnyddio ar y ward. Nod y rhain yw cofnodi amrywiaeth o fanylion personol i helpu'r staff i ddeall anghenion a dewisiadau'r claf yn well.

Roedd y lleoliad wedi cynnal nifer o archwiliadau, gan gynnwys archwiliadau cwympiadau a niwed i feinweoedd. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain a gwelsom fod sgoriau cadarnhaol wedi cael eu cyflawni. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod digwyddiadau yn cael eu hadolygu yn ddyddiol a bod cwympiadau risg ganolig ac uchel yn cael eu hadolygu mewn panel craffu. Mae staff y ward a thîm diogelwch cleifion y bwrdd iechyd ar y panel, sy'n helpu i fonitro digwyddiadau a dysgu gwersi ohonynt.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y staff y ffordd y maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau atal a rheoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu drwy sgrymiau wythnosol, drwy e-bost a thrwy gadw ffolder o bolisïau a gweithdrefnau wedi'u hargraffu.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE a bod y defnydd cywir o PPE yn cael ei fonitro drwy archwiliadau a hapwiriadau gan yr uwch-nyrs. Ychwanegodd rheolwr y ward fod anghenion hyfforddi atal a rheoli heintiau yn cael eu trafod drwy gyfarfodydd staff unigol misol.

Cadarnhaodd y staff fod cleifion newydd yn cael eu derbyn mewn ciwbicl ac yn cael prawf COVID-19 ar adegau priodol. Mae hyn yn helpu i leihau'r posibilrwydd o drosglwyddo COVID-19 i'r staff a'r cleifion eraill ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau ar lefel ward wythnosol yn cael eu cynnal gan dîm rheoli'r ward. Gwelsom enghreifftiau o ddau archwiliad wedi'u cwblhau, gan gynnwys hylendid dwylo a'r defnydd o PPE. Cafodd y ddau o'r rhain sgôr gadarnhaol. Nododd y staff hefyd fod nyrs atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â'r ward a bod cyngor a chymorth rheolaidd wedi cael eu darparu drwy gydol y pandemig.

[2] Adnodd a ddarperir gan y Gymdeithas Alzheimer's

Cadarnhawyd na chafwyd unrhyw frigiadau o achosion o COVID-19 ar y ward yn ystod y tri mis diwethaf. Bu un haint nad oedd yn gysylltiedig â COVID-19, a gwelsom na fu angen i'r tîm atal a rheoli heintiau ymchwilio ymhellach.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisïau (megis uwchgyfeirio).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dangosodd yr uwch-nyrs ar safle'r ysbyty wybodaeth glir am y ward. Roedd y ddau aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am nifer o fentrau a oedd yn cael eu treialu, neu a oedd ar fin gael eu treialu. Ychwanegodd y ddau aelod o'r staff fod staff y ward wedi ymateb yn hynod o dda i'r heriau a berwyd gan y pandemig.

Dywedodd y staff wrthym y bu prinder staff yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod hyn wedi gwella bellach. Gwelsom fod lefelau staffio y cytunwyd arnynt ar waith yn y gwasanaeth a bod rheolwr y ward yn adolygu'r rota yn ddyddiol i sicrhau bod y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn briodol. Disgrifiodd rheolwr y ward broses glir a fyddai'n cael ei dilyn pe bai angen staff ychwanegol.

Cadarnhawyd bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau asesiad risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu. Roedd hyn yn helpu i sicrhau y gallai'r staff ddod i'r gwaith yn ddiogel. Disgrifiodd y staff y ffyrdd y cefnogwyd staff y ward yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys galwadau ffôn rheolaidd â'r staff a oedd yn gwarchod ac argymell defnyddio'r rhaglen cymorth i gyflogeion i'r staff yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt.

Gwnaethom ystyried pa drefniadau oedd ar waith i sicrhau bod trafodaethau na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR) yn cael eu cynnal mewn ffordd briodol a sensitif. Dywedodd y staff wrthym fod proses gadarn ar waith y mae'r tîm ehangach yn ei deall yn dda a bod y cleifion a'r perthnasau yn rhan bwysig o unrhyw drafodaethau.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau clir ar gyfer adolygu'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Dywedodd y staff wrthym fod y nyrs cyswllt rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn mynychu cyfarfodydd wythnosol ac yn ymweld â'r ward yn ddyddiol. Ychwanegodd y staff fod nodiadau cynllunio i ryddhau cleifion o'r ysbyty ar gael i bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol a bod mewnbwn cadarnhaol gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Cawsom grynodeb o ddigwyddiadau a gwelsom fod y rhain wedi cael eu cofnodi'n briodol drwy system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd. Gwnaethom drafod un digwyddiad â'r staff yr oedd AGIC yn ymwybodol ohono. Roedd y staff yn gyfarwydd â'r digwyddiad hwn ac roeddent yn gallu disgrifio pa wersi cychwynnol a ddysgwyd a pha gamau unioni a gymerwyd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom lefelau isel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y staff wrthym fod hyn oherwydd pwysau'r pandemig, yn ogystal ag achosion o amharu ar y gweithlu ac atal hyfforddiant wyneb yn wyneb. Roedd rheolwr y ward yn cydnabod bod hyn yn broblem ac roedd wedi dechrau cymryd camau i wella hyn, er enghraifft drwy nodi anghenion hyfforddi nas diwallwyd drwy gyfarfodydd staff unigol. Roedd yn gadarnhaol clywed bod hyfforddiant pwrpasol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o ddementia, wedi cael ei drefnu fel mesur dros dro.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro cynnydd y ward o ran ei chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Cwm Cynon Ward: 1 Dyddiad y gweithgarwch: 12 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro cynnydd y ward o ran ei chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1 | 1. Rheolwr y Ward i adolygu'r hierarchaeth ar y Cofnod Staff Electronig gyda'r nod o sicrhau bod y wybodaeth am niferoedd staff yn gywir. | Rheolwr y Ward | 2 Gorffennaf 2021 |
| | | | 2. Rheolwr y Ward i adolygu'r cymwyseddau gyda'r nod o sicrhau bod y rhain yn gywir ac yn adlewyrchu gofynion y rôl/band. Lle y nodir nad yw'r cymwyseddau'n briodol, caiff y data eu glanhau a chaiff y cymwyseddau eu dileu. | Rheolwr y Ward | 9 Gorffennaf 2021 |
| | | | 3. Unwaith y bydd yr ymarfer uchod wedi'i gwblhau trefnir i'r staff gael yr hyfforddiant gofynnol. | | 16 Gorffennaf 2021 |
| | | | 4. Yn unol â chynllun perfformiad y Grŵp Gwasanaeth Clinigol ehangach, bydd yn ofynnol i'r ward ddangos cynnydd o 5% neu fwy o ran ei chydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol bob mis. Bydd Rheolwr y Grŵp Gwasanaeth Clinigol yn cael ei hysbysu am hyn. Bydd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei thrafod. | Rheolwr y Ward | Parhaus - misol |
| | | | 5. Bydd cydymffurfiaeth barhaus yn cael ei thrafod a'i monitro yn ystod cyfarfod 1:1 misol â Rheolwr y Ward i sicrhau bod y data a'r gydymffurfiaeth yn gywir. | Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs | Parhaus - misol |
| | | | 6. Bydd tystiolaeth i ddangos bod y camau uchod wedi cael eu cymryd yn cael ei hanfon i AGIC drwy Objective Connect erbyn 12 Awst 2021. | Uwch-nyrs | 12 Awst 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Noder:** Mae rhwystrau posibl i gyflawni'r cynnydd o 5%, sy'n cynnwys:-<br><br>Rhoddwyd y gorau i gynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod pandemig COVID-19 i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Darparwyd rhywfaint o hyfforddiant gorfodol ar-lein lle y bo modd. Fodd bynnag, ni fu hyn yn bosibl ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol.<br><br>Yn y cyd-destun hwn, mae rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb wrthi'n cael ei ailgyflwyno. Bydd rheolau cadw pellter cymdeithasol yn berthnasol ar y diwrnodau hyfforddi hyn o hyd a bydd cyfyngiadau ar nifer y bobl a ganiateir yn y lleoliadau hyfforddi, a fydd yn effeithio ar nifer y lleoedd sydd ar gael.<br><br>Dangosodd adolygiad o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar-lein fod anawsterau wrth ddefnyddio'r Cofnod Staff Electronig yn ystod oriau gwaith ac o gartref. Yn ogystal, weithiau nid yw system y Cofnod Staff Electronig ar gael oherwydd problemau TG – mae hyn yn her ledled Cymru. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Claire L Powell

Dyddiad: 16 Mehefin 2021